

**Bwrdeistref Sirol Caerffili**  
**Datblygiad Tyrbín Gwynt ar Raddfa Lai**  
**Astudiaeth Sensitifrwydd Tirwedd a Chapasiti**  
**Ymateb i Ymgynghoriad CNC**

Cyfraniad CNC i *Astudiaeth Sensitifrwydd Tirwedd a Chapasiti Datblygiad Tyrbín Gwynt Blaenau'r Cymoedd gan gynnwys y fethodoleg a'r cysylltiad â'r Map Tir. Mae CNC yn cefnogi'r gwaith a wneir ar gyfer astudiaeth Blaenau'r Cymoedd ac mae egwyddorion a methodoleg yr astudiaeth hon yng Nghaerffili yn cael yr un cymorth.*

Manylion y Sylwadau:

1. Rydym ar ddeall mai teitl astudiaeth Blaenau'r Cymoedd yw 'Datblygiad Tyrbín Gwynt' yn hytrach na 'Datblygiad Tyrbín Gwynt ar Raddfa Lai' ac yn awgrymu bod y teitlau yn adlewyrchu ei gilydd, er mwyn cysondeb.
2. **Adran 6 Ffig.03.** Nid yw'n hawdd iawn gwahaniaethu rhwng lliwiau 'Lleoliad Hanfodol i Barciau a Gerddi Hanesyddol' ac 'Ardaloedd Tirwedd Arbennig'.
3. **Ffig.04** A oes diffiniad o Dir Agored?
4. **Ffig. 04.** Byddai'n ddefnyddiol cael cynllun yn dangos unedau sy'n gysylltiedig â rhai cyfagos yn astudiaeth Blaenau'r Cymoedd.
5. **Ffig.06 ac 07.** Mae'r darlun mewn perthynas â thyrbinau gweithredol, rhai a ganiatawyd a rhai sy'n cael eu cynllunio, wedi newid ers Tachwedd 14. Efallai y bydd angen i'r astudiaeth gyfeirio at waelodlin Tachwedd 14 yn ei chanfyddiadau, ond dylai gydnabod gwaelodlin gyfnewidiol yn y cyhoeddiad, gyda map efallai ar ddyddiad penodol neu ddolen â gwefan fapio cronus Blaenau Gwent.
6. Mae **Ffig. 11** yn dangos sensitifrwydd uchel i dyrbinau mawr yn achos Uned 9 ac mae **Ffig. 12** yn dangos sensitifrwydd canolig i dyrbinau mawr iawn yn achos Uned 9, tra bo'r testun yn nodi dim capasiti ar gyfer tyrbinau mawr iawn a rhywfaint o gapasiti ar gyfer tyrbinau mawr a chanolig. A yw hyn yn gywir?
7. A oes achos dros rannu Uned 1? Mae'n cynnwys rhan o Dirwedd Hanesyddol Cofrestredig Tir Comin Gelligaer, ardal o bwys o safbwynt hanes ac sy'n wahanol i rannau eraill o'r uned, sy'n eithaf mawr.
8. A oes polisi Cynllunio Datblygu Lleol perthnasol mewn perthynas â threftadaeth ddiwylliannol (gan gynnwys Tirweddau Cofrestredig) a fyddai'n werth cyfeirio atynt?
9. Uned 1. Ceir golygfeydd dros Dir Comin Gelligaer ac o Dir Comin Gelligaer dros yr ardal. Cwestiynu a ddylai hyn fod yn sensitifrwydd uchel ("high susceptibility"), o ganlyniad i'r Dirwedd Gofrestredig a phresenoldeb henebion rhestredig. Mae'r Uned 13 gyfagos yn astudiaeth Blaenau'r Cymoedd yn nodi hyn fel sensitifrwydd uchel ("high susceptibility"). A ddylai'r sensitifrwydd i dyrbinau ar raddfa fawr fod yn uchel? Mae'r sylw yn y testun yn dweud na fyddai'r raddfa yn cyd-fynd â'r uned ac yn weledol amlwg.

